**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**4 MAWRTH 2020**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mercher, 4 Mawrth 2020

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Derek Butler, David Cox, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, David Evans, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Chris Bithell a Veronica Gay

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Roedd y Cynghorydd Andy Williams yn bresennol fel aelod lleol ar gyfer eitem 6.1 (060253) ar y Rhaglen.
Roedd y Cynghorydd Tim Roberts yn bresennol fel aelod lleol ar gyfer eitem 6.2 (060357) ar y Rhaglen.

Roedd y Cynghorydd Haydn Bateman yn bresennol fel arsylwr.

**HEFYD YNO:**
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth; Arweinydd Tîm – Cynllunio; Uwch Gynllunwyr; Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygiad Priffyrdd; Uwch Gyfreithiwr; a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd.

## 57. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Neville Phillips gysylltiad personol ag eitem 6.1 (060253) ar y Rhaglen gan ei fod yn byw yn Tabernacle Street, Bwcle, a oedd yn agos at safle'r cais.

Datganodd y Cynghorwyr Christine Jones a David Wisinger gysylltiad personol a oedd yn rhagfarnu ag eitem 6.3 (060411) ar y Rhaglen gan fod y ddau'n llywodraethwyr i Ysgol Gynradd Sealand, a fyddai'n elwa o rodd o ddarn o dir i'r Cyngor i alluogi i safle'r ysgol gael ei ehangu. Dywedodd y Cynghorydd Christine Jones y byddai'n siarad am yr eitem am 3 munud ac yn gadael yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais. Dywedodd y Cynghorydd David Wisinger y byddai hefyd yn gadael yr ysgol cyn y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

## 58. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd yn ystod y cyfarfod ac a oedd wedi eu hatodi i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

http://cyfarfodyddpwyllgor.siryfflint.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4597&Ver=4&LLL=1

late observations 04.03.20

**59.** **COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2020 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Richard Lloyd ac Ian Dunbar eu cynnig a'u heilio.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

**60.** **EITEMAU I'W GOHIRIO**

Nid oedd dim eitemau wedi'u hargymell i'w gohirio.

**61.** **ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y'i cyflwynwyd ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio a oedd ynghlwm fel atodiad.

**62.** **AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Ar ddechrau'r cyfarfod, roedd 12 aelod o'r cyhoedd yn bresennol a neb o'r wasg.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 3.35 pm)

…………………………………………

**Cadeirydd**

## PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 4 MAWRTH 2020

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 060253 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Llawn – Newid defnydd i 3 fflat yn 15-17 Ffordd yr Wyddgrug, Bwcle | Siaradodd y Cynghorydd Andy Williams, yr Aelod Lleol, yn erbyn y cais. | Gwrthod caniatâd cynllunio yn groes i argymhelliad y swyddog. |
| 060357 | Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor | Newid defnydd tir i ddefnydd marchogaeth, codi stablau a llochesi yn y cae yn ôl-weithredol a chais i godi ysgubor yn Hyfrydle, Marian, Trelawnyd. | Siaradodd Ms J. Cain, Asiant, o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Tim Roberts, fel Aelod Lleol, yn erbyn y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog, a gan ddileu amod 3 gan ei fod yn cael ei ailadrodd yn llawn yn amod 6. |
| 060411 | Cyngor Cymuned Sealand | Cais i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl yn dilyn rhoi caniatâd amlinellol i adeiladu 129 o anheddau ar dir ar hen safle Corus, Garden City. | Siaradodd Mr Cemel, Asiant, o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Christine Jones fel siaradwr cyhoeddus o blaid y cais a gadawodd yr ystafell ar ôl siarad. | Rhoi caniatâd cynllunio ar yr amod fod yr ymgeisydd yn derbyn Rhwymedigaeth Adran 106 ac yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| | - | Materion Cyffredinol – Adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | - | Nodi'r adroddiad. |